

Angel y Nadolig

Mae'r adeg wedi cyrraedd, mae angel yn y tŷ.
 Mae golau gwyn er gwaetha'r dyddiau du.
 Mae seren yn sirioli bob tro mae'n galw draw,
 A channwyll wedi'i chynnau yn ei law.
 Mae'n newid gwedd y goeden,
 Mae'n cyffwrdd celyn coch
 Fel cusan ysgafn pluen o eira ar fy moch.

Cytgan:

Angel y Nadolig
 Tyrd i'n tŷ ni,
 Tyrd â'r golau cynnes i 'nhywyllwch i.
 Tyrd â gwên i'r noson,
 Tyrd â gwên i'r galon,
 Angel y Nadolig
 Tyrd i'n tŷ ni.

Mae'n codi cwr y llenni ar ddrama fawr yr ŵyl,
 Y rhoi a'r cael a'r mynd a'r dod a'r hwyl;
 Mae'n deffro'r byd â'i adain, yn llenwi'r lle â chân
 A thaflu boncyff arall ar y tân;
 Mae'n cario cardiau atom
 Sy'n llawn newyddion da,
 A danfon ein llythyrau bob cam i Wlad yr Iâ.

Mae'n cadw'r ddeilen fythwyrdd yn fyw drwy'r tymor crin,
 Yng ngwydrau'r gaeaf, gwanwyn ydy'r gwin.
 Mae'n geni ysbryd newydd rhwng pawb o gylch y bwrdd:
 Brenhinoedd a bugeiliaid eto'n cwrdd.